14–16 oed

# Y model atomig

## Datrys diffiniadau

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Education
Inspiring your teaching and learning

Wedi'i lawrlwytho o rsc.li/4tzFoze

# Diffiniadau wedi'u datrys

Y **rhif atomig** yw nifer y protonau yn niwclews atom o elfen benodol.

Y **rhif màs** yw cyfanswm nifer y protonau a'r niwtronau mewn niwclews atom o elfen benodol.

Y **màs atomig cymharol** yw màs cyfartalog atom o elfen gan ystyried y canrannau o isotopau'r elfen sy'n digwydd yn naturiol.

Y **màs cymharol** yw màs gronyn o'i gymharu ag $^{1}/_{12}$ o fàs atom $^{12}C$.

Mae **isotopau** yn atomau sydd â'r un nifer o brotonau ond niferoedd gwahanol o niwtronau.

**Gwefr gymharol** yw gwefr bositif (+) neu negatif (-) gronyn o'i chymharu â gwefr un proton.

# Cwblhau'r cysylltiad: brawddegau cyflawn

Mae'r rhif màs yn dweud wrthym beth yw cyfanswm y protonau a'r niwtronau mewn niwclews atom. **Felly**, gellir cyfrifo nifer y niwtronau **drwy** dynnu'r rhif atomig o'r rhif màs, **gan fod** y rhif atomig yn dweud wrthym beth yw nifer y protonau mewn niwclews atom.